YSGOL BRYNREFAIL

DISGO PENDALAR

Ar ddiwrnod olaf yr hanner tymor fe gafwyd dathliad sydyn o'r gwyliau o'n blaen gyda disgo a neuadd yr Ysgol yn ysgwyd i sŵn y miwsig.

Trefnwyd yr oll gan Elin, Elliott, Poppy a Bethan o flwyddyn 12 yn rhan o'r ymgyrch i godi pres tuag at Barti Pendalar.

Wedi lluchio eu hunain led led y neuadd yn steil 'Gangnam' roedd y dawnswyr hefyd yn falch o ddiodydd ysgafn i leddfu'r syched.

Ar ddiwedd yr hwyl a'r sbri yr oedd y trefnyddion ar ben eu digon gyda chyfanswm o £118 yn mynd tuag at y dathliad Nadolig.